

HH

FEARFUL SHIPWRECK NEAR LLANELLY.

○○○○○○○○

We have no record of such a melancholy disaster having taken place on the Welsh Coast, as the one that happened at the mouth of the Bury River, on Wednesday evening, January 22, 1868. After the stormy wind had abated, 19 vessels went out; but the sea was running mountains high in the bar: as the wind from inside was not strong enough to propel them through the waters, and not sufficient depth to give the vessels full play, it is feared that 14 sank, as only 5 were able to return. It is supposed that about 40 lives are lost.

After leaving their moorings all, it seems, went well with the vessels till they arrived at the bar, where the sea was running tremendously heavy; being unable to go through the strong waves, and the water not being sufficiently deep to float them over, they grounded in the sand, and were knocked to pieces by the force of the waves. As near as can be ascertained, the following is a list of the lost:—The St. Catherine, of Fay—supposed to have gone down with all hands. Eliza, of Jersey—men lost, including Daniel Rees, pilot, from Llanelly. Mary Anne, of Amlwch—lost, with all the men, except a boy 12 years old: seeing his danger, he jumped on board a pilot boat. Amethyst, of Dublin—ashore inside. Ceres, pilot-cutter—hands saved. Huntress, of Workinton—total wreck; crew supposed to be lost. Jeune Celine, of Jersey—gone to pieces; men lost. Anne, of Barnstaple—crew supposed to have perished. Sophie—went out; no tidings of her; supposed to have sank with all hands. Charles Walker—no tidings. Brothers, of Llanelly—ashore, broken to pieces, crew saved. Onward, Llanelly—lost, with the master, Captain David Clement, with his son, and the pilot, Christopher Lewis; remainder

of the crew saved. *Roscino*—ashore, total wreck, crew lost. *The Water Lily*, and *Fanny*, also ashore, crews lost.

Landsmen, sailors, all consider
 Life's a dream—and soon will end!
 When in health, awake—secure
 One in death will be your friend;
 One that can in need assist you,
 Bear you up in death's cold flood,
 One that he might save the sinner,
 For us shed his precious blood.

Llongddrylliad Dychrynlyd GERLLAW LLANELLI.

Nos Fercher, Ionawr 22, 1868, aeth 19 o longau allan wedi i'r gwynt mawr ostegu ychydig. Ond gan fod y tonau yn ngenau yr afon fel mynyddau mawrion, methasant fyned allan i'r môr; dim ond 5 allodd ddychwelyd: ofnir i'r 14 ereill soddi oll, a myned yn ddrylliau. Bernir fod yn nghylch 40 o ddynion wedi colli eu bywydau!

Gan fod yn y porthladd lawer o longau wedi aros cryn amser am dywydd teg i fyned allan, a bod y gwynt mawr wedi tawelu llawer nos Fercher, bernid y gallasant fyned allan. Ond erbyn myned i enau yr afon Bury, a'r gwynt wedi bod mor nerthol o'r gorllewin, yr oedd y tonau fel mynyddau mawrion, a chan nad oedd y gwynt yn ffafriol i'w cymeryd hwy trwy y tonau hyn, ac nad oedd yno ddigon o ddyfnder o ddwfr i'r llongau chwareu, soddasant a glynasant yn y tywod nes eu chwilfriwio! A ganlyn, mor agos ag y gellir barnu, oedd enwau y llongau a gollwyd; *St. Catherine*, o *Fay*—y dwylaw oll, tybir, wedi eu colli. *Eliza*, o *Jersey*—y dynion oll wedi eu colli, a chyda hwynt *Di. Rees*, *Pilot*, *Llanelli*. *Mary Anne*, o *Amlwch*—dwylaw oll wedi

colli, ond llencyn 12 oed. Amethyst, o Dublin—
daeth *ashore*. Ceres, Pilot—achubwyd y dwylaw.
Yr Huntress—aeth hon yn erbyn y lan yn ddrylliau.
Jeune Celine, o Jersey—aeth y llong yn ddrylliau;
collwyd y dynion. Anne, o Barnstaple—yn ddrylliau!
ofnir i'r dynion gael eu colli. Sophie—aeth hon
allan; nid oes hanes am dani, ofnir ei cholli hi
a'r holl ddyinion. Charles Walker, dim hanes.
Y Brothers, o Lanelli—rhedodd i'r lan, a drylliodd;
achubwyd y dwylaw. Yr Onward, Llanelli—collwyd
hi gyda'r Meistr, y Cadpen David Clement, ei fab,
a'r pilot, Christopher Lewis; achubwyd y gweddill
o'r dwylaw. Y Roscino—aeth yn ddrylliau yn erbyn
y lan; collwyd y dwylaw. Aeth y Water Lily a'r
Fanny yn erbyn y lan, a cholliwyd eu dwylaw.

Byr, ansicr iawn yw bywyd
Pawb trwy barthau'n gwlad i gyd,
Amlwg yw nad oes arosfa
Faith i neb yn hyn o fyd;
Mae'r elfenau, dan y ddaear,
Yn cyffroi yn aml iawn,
Ac yn gwneuthur gwragedd tyner
O ddwys brudd-der oll yn llawn.

Cyn i'r wlad gael fawr tawelwch,
Wedi'r tân yn *Ferndale* draw,
Dyma 'storom ger Llanelli
'N llenwi llawer un â braw;
Wedi dysgwyl adeg ffafriol
I droi allan ar eu hynt,
D'ryswyd hwynt gan donau'r eigion,
Cymorth iddynt ni roi'r gwynt.

Pwy—O pwy, a all ddych'mygu
'R filfed ran o'i trallod blin?
Pan yn cynyg myned adref
Eto 'n d'rysu gan yr hin!
Y llongau'n soddi yn y tywod,
Methent hwylio yn y bla'n;

Tonau geirwon yn eu golchi,
Llesgedd yn en trechu 'n lân!

'R oedd calonau yno'n toddi—

Cofiai rhai berth'nasau cu,

Gwragedd tyner—a phlant bychain,

Ar eu dâl gan drallod du!

Nid oedd ganddynt ond ymollwng

I drugaredd gwynt a thôn:

Heb un cyfaill i roi cymorth,

Heb neb all'sai loni 'r fron!

Mynych, mynych trwy ddamweiniau,

Ar y môr ac ar y tir;

Ac o fewn aneddau cynes

Cym'r ir rhai i'r bywyd hir;

Mewn rhyw fodd annysgwyliadwy

Pan yn iach, ac yn eu grym;

Syrthia llawer yn ein hymyl

Dan ergydion angeu llym.

Er yr oll, mae rhai 'n diota

Ac yn meddwi nos a dydd;

A'r dydd santaidd ddiystyrir;

Rbuthrir trwy bob rhwymau 'n rhydd!

O ystyried pawb fod cyfrif—

Cyfrif manol eto i fod;

Rhaid rhoi cyfrif am bob meddwl,

Gair, a gweithred, dan y rhôd.

O! gan hyny, gwyliwn beunydd

Arein camrau bob yr un;

Ceisiwn heddwch ac ymgeledd

Ceidwad gwael golledig ddyn;

Caiff pechadur edifeiriol

Lôn dderbyniad gydag ef;

Ond ymddiried yn y Ceidwad

Caiff ymgeledd nef y nef.

GWLADGARWR.

E. & J. Griffiths, Argraffwyr, Abertawy.